

Y foronen (*Daucus carota*) yw eponym yr Apiaceae, teulu'r moron. Dechreuwyd tyfu'r mathau domestig cynharaf tua 5,000 o flynyddoedd yn ôl mewn rhannau o Afghanistan bresennol. Yn wreiddiol roeddent yn biws, du, neu hyd yn oed wyn eu lliw ac yn chwerw eu blas. Cafodd y foronen lliw oren rydym ni'n gyfarwydd â hi heddiw ei datblygu yn y bymthegfed ganrif gan wladgarwr Is-almeneig. Daethant i wledydd Prydain tua'r un amser.

Mae moron yn cynnwys llawer o wrthocsidyddion a llawer o pro-fitamin A sy'n gallu helpu i gadw'r golwg. Mae moron yn gnwd gwreiddiau pwysig ym Mhrydain gyda thua 9,000 hectar yn cael eu plannu'n flynyddol. Mae eu gwerth ar y farchnad tua £280 miliwn y flwyddyn.

SAFLE

I osgoi cael gwreiddiau fforchog, ni ddylid cael cerrig yn y pridd. Mae pridd ysgafn, gyda draeniad da, yn ogystal â phridd mawnoglyd, yn ddelfrydol i dyfu moron. Argymhellir defnyddio gwrtaith yn cynnwys llawer o ddeunydd organig, ond dylid sicrhau bod tail fferm wedi pydru'n dda a dylid ei roi ar y tir ychydig fisoedd cyn plannu i osgoi cael gwreiddiau fforchog. Mae angen pH dros 6.0 i'r cnwd sefydlu ei hun yn dda.

MATHAU AC AMRYWIAETHAU

Math Nantes – Math pur fawr (gall Nigel F1 dyfu rhwng 15 a 20 cm), silindraidd ei siâp gyda Nairobi'n amrywiaeth nodweddiadol. Dyma fath a ddefnyddir yn aml ac yn ôl y sôn hwn oedd y math gwreiddiol o foronen i'w hau yn yr hydref.

Math Chantenay – Yn wreiddiol o Ffrainc ond caiff ei blannu'n aml ym Mhrydain. Cyfeirir at y math hwn yn aml fel y foronen fwyaf poblogaidd gyda lliw mwy coch a gwreiddiau byrrach a mwy ffurf na math Nantes. Mae amrywiadau'n cynnwys "Royal" a "Chantenay Red Cored".

Math Amsterdam – Math llai, tua 12 – 17 cm, a ddefnyddir gan amlaf fel math cynnar. Mae'n aeddfedu'n gyflym heb fawr ddim craidd. Mae amrywiadau'n cynnwys "Amsterdam Forcing" ac "Amsterdam Sweetheart".

PLANNU

Tyfir moron o hadau. Yr amser hau delfrydol yw Mawrth/Ebrill, tua 2 wythnos cyn y disgwylir y rhew olaf. Fodd bynnag, mae'n bosib tyfu cnydau cynnar a gaiff eu hau mor fuan â Chwefror gan ddefnyddio fframiau oer neu *cloches* i amddiffyn y planhigion. Os heuir yr hadau ym mis Hydref, mae angen cael gorchudd plastig neu gyffelyb dros y gaeaf. Mae'n bosibl dal i fedru hau moron tan fis Gorffennaf ond mae pry'r moron yn tueddu i effeithio mwy ar gnydau hwyr.

Heuir hadau tua 2 cm o ddyfnder gyda dril manwl fel Mini Air neu Stanhay. Rhoddir tua 15 i 30 cm o le rhwng rhesi gyda thua 100 o foron i bob m². Os defnyddir gwelyau yna dylid rhoi mwy o hadau yn rhesi allanol y gwelyau. Weithiau defnyddir haidd neu fwstard fel cnwd gorchudd i osgoi colli pridd drwy effeithiau gwynt. Tymheredd delfrydol y pridd ar gyfer egino yw 10°C.

MAETH I'R CNWD

Nodir y gofynion gwrtaith a gyhoeddwyd gan DEFRA yn Nhabl 1. Fodd bynnag, efallai y gall hanes cynhyrchu a dadansoddiadau pridd awgrymu y dylid defnyddio lefelau gwahanol o wrtaith.

Tabl 1 – Argymhellion gwrtaith ar gyfer moron o RB209

	SNS, P, K or Mg Index						
	0	1	2	3	4	5	6
	kg/ha						
Nitrogen	110	60	20	0	0	0	0
Ffosfad (P ₂ O ₅)	200	150	100	50M	0	0	0
Potash (K ₂ O)	275	225	175(2-)125M(2+)	35	0	0	0
Magnesiwm (MgO)	150	100	0	0	0	0	0

Ffynhonnell: Defra – *Fertiliser recommendations for agricultural and horticultural crops (RB209)*

RHEOLI

Mae moron angen 20 mm o law yr wythnos yn ystod y tymor tyfu. Defnyddir systemau uwchben neu linellau ysgeintio dŵr os ydyw'n sych.

Mae angen chwynnu yn y cyfnod cynnar a gellir gwneud hynny â llaw ar safleoedd bychain. Ar raddfa fwy, argymhellir defnyddio chwynladdwr, e.e. Linuron.

Ar ôl i'r gwreiddiau dyfu i tua 5 cm gall rhoi gwellt neu dail arnynt helpu i gadw'r pridd yn llaith. Os yw'r pridd yn sychu gormod a thopiau'r gwreiddiau'n dod i'r amlwg, gall topiau'r moron fynd yn wyrdd a mynd yn chwerw eu blas. Gall eu gorchuddio â gorchuddion plastig neu gyffelyb, neu â gwellt yn draddodiadol, hefyd fod yn angenrheidiol pan mae'r tymheredd yn mynd yn isel.

PLÂU AC AFIECHYDON

Pryfed moron (*Psila rosae*) yw'r boen fwyaf i dyfwyr. Os ceir ymosodiad difrifol o'r pry bydd y dail yn troi'n lliw rhwd i ddechrau ac yna'n felyn. Gwelir tyllau bychain mewn gwreiddiau wedi eu heintio ac mae eu blaenau'n dywyll. Caiff y pryfed benywaidd eu denu gan yr arogl a gall plannu planhigion gydag arogl cryf (e.e. nionod) rhwng y rhesi eu cadw draw. Fodd bynnag, cymysg yw'r canlyniadau wrth ddefnyddio'r dull hwn. Gellir amddiffyn cnydau hefyd trwy ddefnyddio micro rwydi neu blannu amrywiaethau sy'n gallu gwrthsefyll y pryfed. Mae pryfleiddiaid ar ffurf llwch neu chwistrell, yn cynnwys pirimiphos-methyl, hefyd ar gael.

Malltod y dail (*Alternaria dauci*) – afiechyd ffwngaid yw hyn a fydd yn effeithio'n gyntaf ar y dail gan achosi iddynt wywo a throi'n frown. Mewn achosion difrifol gall ladd y top i gyd. Mae gan foron sydd wedi eu llygru gan hwn gylch du ar dop y gwreiddyn. Argymhellir defnyddio chwistrell ffwngleiddiad (yn cynnwys difenoconazole) mewn tymhorau gwlyb.

Nematodes, e.e. *Heterodera carotae*, mae'r rhain yn achosi i wreiddiau eilaidd ddatblygu.

CYNAEFU A STORIO

Gellir cynaeafu'r crwd â llaw (bydd angen cymorth fforc os yw'r pridd yn galed) neu gyda pheiriant codi. Mae angen codi moron yn ofalus i osgoi cleisio neu dorri'r gwreiddiau. Rhag i'r gwreiddiau ddod i gysylltiad â gwres, caiff moron eu codi'n aml ar ôl machlud haul yn ystod misoedd poethaf yr haf. Hefyd peidiwch â gadael moron wedi eu codi ar y cae yn rhy hir gan y bydd yr arogl yn denu pryfed moron. Gellir golchi'r moron ar ôl eu codi naill ai â llaw neu mewn llinell olchi os ydych yn eu cynhyrchu ar raddfa fawr.

Oherwydd y gall moron fynd fel rwber yn weddol hawdd mae angen eu storio o dan 5°C, yn ddelfrydol ar 1 – 2 °C. Ar y llaw arall, mae'n bosibl hefyd eu gadael yn y ddaear nes bydd eu hangen. Gellir defnyddio'r dull hwn yn unig pan nad yw'r tymheredd yn mynd o dan 0°C.

Caiff moron naill ai eu gwerthu'n rhydd heb ddail neu mewn clystyrau o 10 moronen wedi eu clymu gyda'i gilydd, yn cynnwys y dail. Defnyddir y dull olaf hwn yn arbennig mewn siopau fferm a stondinau wrth ochr y ffordd a cheir prisiau da amdanynt.

Ffigurau posibl ar gyfer un hectar o gynhyrchu moron

Allbynnau	Eitem	Swm	£/Uned	£ Cyfanswm
Gwerthu Cnydau	tunnell	65000	0.10	6500
Cyfanswm Allbynnau				£6500
Costau				
Llafur Ysbeidiol	Graddio/plannu	120	6.00	720
	Cynaeafu/pacio	60	6.00	360
Costau Gwrtaith	Gwrtaith	0.6	200	120
Costau Eraill	Pecynnu/Cludiant/...			2800
Costau Had	Hadau	3	100	300
Costau Chwistrellu	Chwyn/Plaladdwyr			250
Cyfanswm costau				£4550
Maint Elw Gros				£1950

Ffynhonnell: Amrywiol



Whilst every effort is made to ensure the information provided in this leaflet is correct, CALU cannot be held responsible for the consequences of any actions taken on the basis of its content. CALU is the Development Centre for horticulture, biomass, novel crops, farm woodlands and novel livestock in Wales. CALU is funded by the Welsh Assembly Government as part of Farming Connect

www.calu.bangor.ac.uk

CALU – Supporting Sustainable Land Use